Cenn@d

AWST 28 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD A SEREN CYMRU* RHIF 183

# Tystiolaeth yr Eglwysi yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf

Bob blwyddyn bydd gan Cytûn bresenoldeb amlwg ar faes yr Eisteddfod, gydag uned enfawr â lle i dros 120 o bobl eistedd. Fel arfer, bydd te a choffi ar gael, oedfaon a seminarau'n cael eu cynnal, siop lyfrau helaeth a gofod i waith plant. Fodd bynnag eleni, gan fod y maes yn dipyn llai, dim ond gofod bach a ganiatawyd – i arddangos llyfrau diweddar, bwrdd gweithgaredd ar gyfer y plant, ac arddangosfeydd gan rai o'n mudiadau Cristnogol. O'r uned honno llwyddwyd i rannu dros ddwy fil o gopïau o'r efengylau a thestamentau drwy garedigrwydd Newyddion Da i Bawb, Byddin yr Iachawdwriaeth a Chymdeithas y Beibl. Llwyddwyd hefyd i anfon tua 300 o gardiau post at Aelodau Seneddol newydd San Steffan yn gofyn iddyn nhw sicrhau heddwch a chyfiawnder yn ein byd. Yn ogystal, roedd yn ffenest siop i werthu rhai o'r llyfrau newydd a gyhoeddwyd ar gyfer y brifwyl.

Gwelwyd prif ymdrech yr eglwysi eleni yn cael ei chanoli yn Eglwys St Catherine ynghanol y dre ym Mhontypridd. Yno daeth tua 15 mudiad Cristnogol ynghyd i arddangos, gan gynnwys arddangosfa 'Beibl mewn Gwlân' wedi ei pharatoi gan Fyddin yr Iachawdwriaeth fel rhan o'u dathliadau'n nodi 150 mlynedd o weithio yng Nghymru.

Buom yn hynod ffodus i gael cefnogaeth y ficer lleol, Charlotte Rushton, a'i thîm, a roddodd groeso anhygoel yno wrth i ni feddiannu'r eglwys am yr wythnos. Roedd gennym ofod arbennig i weini te a choffi a theisennau cri, a braf oedd croesawu pob oed yno, yn Eisteddfodwyr a phobl lleol. Buom hefyd yn ffodus o gael cymorth Tim a Helen Williams am yr wythnos gyfan yn croesawu a gofalu am y lluniaeth yn yr eglwys.

Bob dydd am 1.00 cawsom oedfa hyfryd yng nghorff y brif eglwys, gyda gwahanol fudiadau ac enwadau yn arwain. Cafwyd oedfa gymun yn ogystal fore Mercher, dan ofal yr Esgob Mary Stallard o Landaf. Diolch i Sian Wyn Rees o Gymdeithas y Beibl am drefnu'r oedfaon hyn ar ein cyfer bob dydd. Cafwyd cyfeiliant gan gitarydd, pianydd a band pres Byddin yr Iachawdwriaeth yn ystod yr wythnos.

Bore Sul, cynhaliwyd oedfa yn y prif bafiliwn ar y Maes hefyd, ond rhaid cydnabod mai siomedig oedd gweld llai na chant o bobl yn bresennol yn yr oedfa, a hynny mewn pafiliwn yn dal dros ddwy fil o bobl. Diolch i Geraint Rees am ei arweiniad, ac am gyfraniadau cerddorol Kizzy Crawford a Lloyd Macey. Cawsom hefyd offeren dan ofal y Cylch Catholig, a hyfryd oedd




Band Byddin yr Iachawdwriaeth yn cyflwyno eitemau



Y criw gymerodd ran yn noson cofio Dewi Arwel Hughes



Cath Woolridge yn arwain oedfa



Kathryn Stowers yn arwain oedfa gyda'r band



Yr offeren o dan arweiniad Edwin Regan



Meilyr Geraint yn arwain oedfa



Y band yn perfformio tu allan i Eglwys St Catherine



Meilyr Geraint a Sian Wyn Rees yn cyfeilio



Panel holi a drefnwyd gan Athrofa Padarn Sant a Choleg y Bedyddwyr, Caerdydd

(parhad ar y dudalen nesaf)

## Tystiolaeth yr Eglwysi yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf

*(parhad o dudalen 1)*

cael cwmni'r Esgob Edwin Regan i arwain honno. Amserol hefyd oedd medru cynnal gwylnos ar faes yr Eisteddfod dan arweiniad Mererid Hopwood gyda chyfraniadau gan Gwyneth Glyn ac Ifor ap Glyn.

Cynhaliwyd nifer o sesiynau trafod yn yr eglwys hefyd, gan gynnwys sesiwn 'Y Cwestiwn Mawr' o dan ofal cyfeillion Athrofa Padarn Sant a Choleg y Bedyddwyr, Caerdydd. Cafwyd cyflwyniadau am waith Cymorth Cristnogol, cynllun gweddi Cymdeithas y Beibl, gwaith A Rocha a gwasanaeth mabwysiadu plant Dewi Sant. Cafwyd sesiynau Hawlio Heddwch a chyflwyniad gan fudiad Cofleidio'r Dwyrain Canol, yn ogystal ag eitem gerddorol gan Sioned Webb ar y delyn a'i ffrind o Syria yn chwarae offeryn traddodiadol y wlad, yr Eid.

Daeth nifer i'r eglwys i weld y ffenestri lliw hynafol, a'r rheini'n ffenestri Cymreig yn adrodd hanes y ffydd Gristnogol yng Nghymru. Trefnwyd saith gosodiad blodau hefyd fel rhan o ŵyl flodau ar gyfer yr Eisteddfod.

Lansiwyd sawl llyfr, gan gynnwys *Byw'r Weddi*, cyfrol ar Weddi'r Arglwydd, sef addasiad Gwilym Wyn Roberts o gyfrol Trystan Owain Hughes. Cafwyd lansiad hefyd yn eglwys Bedyddwyr y Temple yn y dref mewn noson a drefnwyd gan Arfon Jones i gofio a choffáu ei gyfaill Dewi Arwel Hughes. Mawr yw ein diolch i Wyn a Christine James am eu gwaith hwythau'n cwblhau ac yn golygu'r gyfrol ar gyfer ei lansio. Mae *Gair Duw ar Lafar Gwlad* yn cynnig esboniad ar yr holl ymadroddion sy'n rhan o'n geirfa bob dydd sydd â'u tarddiad yn y Beibl.

Diolch am y cyfle i dystio yn ein prifwyl, am bob cydweithrediad gan gynifer o eglwysi'r fro ac am eu parodrwydd i wirfoddoli drwy weini te ac arwain addoliad a sesiynau. Mae'n debyg mai mewn cae yn Wrecsam y byddwn ni'r flwyddyn nesaf, ond diolch am y cyfle unigryw yma a gafwyd eleni i fod yn rhan o eisteddfod â'r dref yn ganolbwynt y cyfan.

*Aled a Delyth Davies,*
*trefnyddion digwyddiadau Cytûn*



Mary Stallard yn arwain oedfa



Rosa Hunt ac Ed Kaneen yn arwain oedfa




Trystan Owain Hughes yn lansio ei gyfrol *Byw'r Weddi*



Cyfarfod lansio cyfrol *Byw'r Weddi*



Cynan Llwyd yn arwain oedfa



Yr wylnos o dan arweiniad Mererid Hopwood, gydag eitemau gan Ifor ap Glyn a Gwyneth Glyn



Geraint Rees ac eraill yn arwain oedfa'r bore o'r pafiliwn



Eitem gerddorol ar y delyn a'r eiud



Criw yn mwynhau paned yn Eglwys St Catherine

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 1 Medi, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Geraint Rees, Efail Isaf

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 1 Medi, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Llinos Mary Jones, Gwyddelwern

# Undeb Bedyddwyr Cymru
# Anerchiad y Llywydd – nos Fawrth, 25 Mehefin 2024 (rhan 2)

**B. Y briodferch**. Yr ail ddarlun yw'r darlun o'r briodferch.
Dyma wirionedd gwefreiddiol: meddwl am eglwys fyd-eang fel priodferch Crist. Soniodd Iesu amdano'i hun fel y priodfab ac Ioan Fedyddiwr fel gwas y priodfab. Pwy felly oedd y briodferch? Wel, yr eglwys wrth gwrs.

Ceir cyfeiriad arall at y briodas hon yn un o lythyron Paul: "Chwi wŷr, carwch eich gwragedd, fel y carodd Crist yntau'r eglwys a'i roi ei hun drosti" (Effesiaid 5:25). Yn wir, gellir dweud mai dydd priodas Iesu a'r eglwys yw uchafbwynt y Beibl, dydd o lawenydd mawr, dydd o fwynhad tragwyddol a dydd i ddyheu amdano. Ar y dydd hwnnw cyflwynir yr eglwys iddo, yn brydferth ac yn ddi-nam: "Llawenhawn a gorfoleddwn, a rhown iddo'r gogoniant, oherwydd daeth dydd priodas yr Oen, ac ymbaratôdd ei briodferch ef." (Datguddiad 19:7)

Mae Iesu'n caru ei bobl, mae'n caru ei eglwys, mae'n caru ei briodferch ac yn edrych ymlaen at ddydd y briodas fawr. Gallwn ni hefyd baratoi ar gyfer y dydd mawr, wrth ddatgan ein cariad tuag ato bob dydd ac wrth gadw'n ffyddlon iddo.

**C. Y Seld**
Mae un darlun ar ôl gen i i ddisgrifio eglwys Iesu Grist – y seld neu'r ddresel. Dydy'r gair "seld" ddim yn ymddangos yn y Beibl o gwbl, ond dwi wedi'i gweld hi yng nghanol yr ail bennod o lythyr Paul at yr eglwys yn Effesus.

Pa atgofion sy'n dod 'nôl i chi wrth feddwl am seld? Efallai y bydd seld benodol gennych mewn golwg, hen seld y teulu gyda gwydrau, jygiau, platiau, cwpanau, soseri, darnau porslen o gŵn, ceffylau neu wartheg. Yn wreiddiol uned yn y gegin oedd y seld, uned ddefnyddiol, rhyw fath o *work unit* i storio bwyd a llestri. Ond dros y blynyddoedd symudwyd y seld o'r gegin i'r ystafell fyw neu'r parlwr, nid fel rhywbeth defnyddiol ond rhywbeth deniadol i arddangos prydferthwch llestri ac ornaments eraill.

Wrth edrych ar seld heddiw, dwi'n meddwl i ddechrau am y gwaith coed, ffrwyth crefftwr yn troi planciau o dderi'n gelficyn urddasol. Rhaid edmygu'r meddwl y tu ôl i'r seld, y paratoi o flaen llawn – meddwl am y cynllun, paratoi'r coed, llifio, plano, torri *joints* a rhoi popeth at ei gilydd. Wedyn dwi'n meddwl am y bobl sydd wedi byseddu'r seld dros y blynyddoedd – yn glanhau, polisho, symud paent y blynyddoedd, a stripio'r seld 'nôl i'r gwreiddiol. Dwi'n meddwl hefyd am y teuluoedd sydd wedi edrych ar y seld a'i thrysori, ei dal yn eu dwylo dros dro ac wedi gwneud penderfyniad mawr – pwy oedd i etifeddu'r seld a'i llestri?

Wedyn byddaf yn gweld y llestri – rhesi o jygiau, rhai'n matsio, set o dair jwg, eraill yn jygiau unigol. Ond fe welwch hefyd gwpanau ac ornaments unigol, anrheg gan ffrind neu berthynas, pob un yn dod gyda'i stori. Mae'r eitemau unigol yn cario atgofion am bobl, digwyddiadau ac achlysuron. Efallai na fyddech chi ddim yn meddwl llawer am yr eitem ar y seld, ond mae'n drysor gwerthfawr i berchennog y seld, fel arwydd o gariad, rhyw drugaredd neu ryw gymwynas.

Dyma beth sy'n gwneud seld yn ddiddorol a phob un yn unigryw. Byddai'n werth i berchennog pob seld ysgrifennu hanes y jygiau a'r hyn y maent yn ei olygu iddynt. Rhaid cofio hefyd am y bachau sgwâr sy'n dal y llestri yn eu lle.

Dwi wedi meddwl droeon am eglwys Iesu Grist fel seld Duw. Daeth y darlun i mi wrth ddarllen Effesiaid 2:1–10. Yno gwelwn y geiriau, "Yng Nghrist Iesu, fe'n cyfododd gydag ef a'n gosod i eistedd gydag ef yn y nefolion leoedd, er mwyn dangos, yn yr oesoedd sy'n dod, gyfoeth difesur ei ras trwy ei diriondeb i ni yng Nghrist Iesu."

Yn ei lythyr at Gristnogion Effesus disgrifiodd yr apostol Paul eu cyflwr cyn iddynt ddod yn Gristnogion. Roeddent yn ysbrydol farw, yn gwbl analluog i newid eu cyflwr; roeddent yn farw oherwydd eu pechod: "Bu adeg pan oeddech chwithau yn feirw yn eich camweddau a'ch pechodau." (Effesiaid 2:1)

Er eu bod yn fyw yn gorfforol roeddent yn farw'n ysbrydol – dyna'i neges. Roeddent yn byw fel pawb arall o dan lywodraeth yr un drwg, yn gwbl analluog i newid eu sefyllfa ei hunain: "Yr oeddech yn byw yn ôl ffordd y byd hwn, mewn ufudd-dod i dywysog galluoedd yr awyr, yr ysbryd sydd yn awr ar waith yn y rhai sy'n anufudd i Dduw." (Effesiaid 2:2)

Dyma'u cyflwr – yn farw'n ysbrydol, yn anufudd i Dduw, ond hefyd yn haeddu ac yn wynebu barn Duw. Ond nid pwyntio bys yr oedd Paul, gan feddwl ei fod yn well na phawb, oherwydd gwelodd ei hun yn yr un sefyllfa cyn iddo ddod yn Gristion: "Ymhlith y rhai hynny yr oeddem ninnau i gyd unwaith, yn byw yn ôl ein chwantau dynol ac yn porthi dymuniadau'r cnawd a'r synhwyrau; yr oeddem wrth natur, fel pawb arall, yn gorwedd dan ddigofaint Duw." (Effesiaid 2:3)

Mae'n bwysig nodi mai un o bobl fwyaf crefyddol ei ddydd ysgrifennodd y geiriau hyn. Gallai ymffrostio yn ei addysg, ei fagwraeth, ei sêl grefyddol a'i ddaioni wrth gadw gofynion allanol deddf Duw. Ond yn y bôn deallodd nad oedd e'n well na'r pagan pennaf neu'r rhacsyn salaf.

A dyna lle mae'r dyn naturiol yn sefyll – yn farw'n ysbrydol, yn methu plesio Duw ond yn gorwedd o dan ei ddigofaint. A thrasiedi'r sefyllfa yw'r ffaith na all wneud unrhyw beth i newid y sefyllfa, i'w godi ei hun o farwolaeth ysbrydol, i blesio Duw â'i weithredoedd neu ennill bywyd tragwyddol. Dydy magwraeth ynddi ei hun ddim yn newid y sefyllfa; dydy bod yn grefyddol ddim yn helpu. Yn wir, gall fod yn rhwystr ar adegau. Dydy helpu eraill, cyfrannu arian neu hyd yn oed aberthu popeth ddim yn peri i'r corff marw ddechrau anadlu, symud a chodi.

Ond mae Duw yn gallu. Dyma i chi un o eiriau byrraf y Beibl â'r ystyr fwyaf – 'ond'. Gair sy'n newid y sefyllfa, yn dod â goleuni ar y mater, yn deffro'r meirw, yn dyrchafu'r corff ac anadlu bywyd i mewn i'r fynwent. Trugaredd Duw, cariad Duw, gras Duw sy'n gyfrifol am yr 'ond'. Cyfoeth o drugaredd, môr o gariad, a thrysorfa ddi-ball o ras, dyna beth sy'n creu 'ond': "Ond gan mor gyfoethog yw Duw yn ei drugaredd, a chan fod ei gariad tuag atom mor fawr, fe'n gwnaeth ni, ni oedd yn feirw yn ein camweddau, yn fyw gyda Christ; trwy ras yr ydych wedi eich achub." (Effesiaid 2:4–5)

Mae'n bwysig nodi mai trwy Grist mae'r atgyfodiad ysbrydol hwn yn digwydd, 'yn fyw gyda Christ'. Heb Grist, dim bywyd; gyda Christ, bywyd yn ei holl gyflawnder. Heb Grist, yn dal o dan ddigofaint Duw; gyda Christ, maddeuant a chymod â Duw. Heb Grist, caethiwed i wasanaethu'r hunan a phethau a grëwyd; gyda Christ, rhyddid i wasanaethu'r Duw byw. Heb Grist, ar yr ochr anghywir; gyda Christ, ar yr ochr iawn.

Mae allweddau marwolaeth a'r bedd yn hongian wrth ystlys Iesu, yr un a goncrodd farwolaeth a'r bedd. Bywyd Crist, marwolaeth Crist, atgyfodiad Crist, esgyniad Crist, eiriolaeth Crist yw sail yr enedigaeth newydd. A gras i gredu yn Iesu sydd wedi gwneud hyn i gyd yn bosibl i ni. Trwy ffydd yn Iesu a'i aberth drosom ar Galfaria y cawsom ein hachub.

Yr ydym mewn cyfamod digyfnewid ag Iesu ac mewn undod perffaith ag ef. Pan fu Iesu farw, bu i ninnau farw hefyd; pan gladdwyd Iesu, claddwyd ninnau hefyd; pan gyfodwyd Iesu, cyfodwyd ninnau hefyd. Pan osodwyd ef i eistedd ar ddeheulaw Duw, gosodwyd ni yno hefyd, gyda Christ, yng Nghrist: "Yng Nghrist Iesu, fe'n cyfododd gydag ef a'n gosod i eistedd gydag ef yn y nefolion leoedd, er mwyn dangos, yn yr oesoedd sy'n dod, gyfoeth difesur ei ras trwy ei diriondeb i ni yng Nghrist Iesu." (Effesiaid 2:6–7)

Beth yw bod yn Gristion? Mae'n golygu bod 'yng Nghrist', wedi ein huniaethu ag ef am byth; credu yn ei farwolaeth ddirprwyol drosom ar y groes; pwyso ar ei ras o ddydd i ddydd; edrych ymlaen

(parhad ar y dudalen nesaf)

*Undeb Bedyddwyr Cymru*
*Anerchiad y Llywydd –*
*nos Fawrth, 25 Mehefin 2024 (rhan 2)*
*(parhad o dudalen 3)*

gyda sicrwydd i'r gogoniant yn y man. Mae statws newydd gennym nawr fel Cristnogion.

Mae'n ymestyn ein deall wrth ddweud bod Duw wedi ein cyfodi o farwolaeth ysbrydol i fywyd ysbrydol a'n bod eisoes yn eistedd gydag ef yn y nefolion leoedd. Wrth gwrs, ry'n ni'n dal i fyw ar y ddaear a bydd yn rhaid marw cyn gadael y ddaear hon, oni bai y byddwn ni'n fyw pan ddaw'r Arglwydd yn ôl. Ond does dim torri ar y bywyd sydd gennym nawr trwy ffydd yn Iesu.

Ac er mwyn tanlinellu'r ffaith mai gras Duw sy'n gyfrifol am hyn i gyd mae Paul yn ychwanegu, "Trwy ras yr ydych wedi eich achub, trwy ffydd. Nid eich gwaith chwi yw hyn; rhodd Duw ydyw; nid yw'n dibynnu ar weithredoedd, ac felly ni all neb ymffrostio." (Effesiaid 2:8–9)

Diolch am ras i gredu; diolch am ffydd i weld mai rhodd yw bywyd tragwyddol; diolch am ddirnadaeth ysbrydol i ddeall nad yw'n dibynnu ar weithredoedd; diolch am ostyngeiddrwydd i sylweddoli nad oes ynom unrhyw sail i ymffrostio.

Ydy'n gweithredoedd felly'n bwysig? Wrth gwrs, mae pob gweithred yn cyfrif wedi i ni ddod i gredu. Cawsom ein hachub nid trwy ein gweithredoedd ond trwy ffydd, ond wedi dod i gredu ein braint yw gweithredu i ddangos ein ffydd yn Iesu Grist.

Cawsom ein geni o'r newydd i lenwi pob dydd â gweithredoedd da, er mwyn i bobl eu gweld a gogoneddu ein Tad nefol: "Oherwydd ei waith ef ydym, wedi ein creu yng Nghrist Iesu i fywyd o weithredoedd da, bywyd y mae Duw wedi ei drefnu inni o'r dechrau." (Effesiaid 2:10)

Mae Duw wedi trefnu'r ddau beth o dragwyddoldeb, gwaith achubol Iesu ar y groes a'n gweithredoedd ni, ffrwyth aberth y groes. Felly, pan fyddwn yn gwasanaethu eraill, yn dangos trugaredd, yn gweinyddu gofal, yn helpu'r gwan, yn cysuro'r hiraethus, yn eistedd gyda'r rhai ar ddiwedd eu taith neu'n codi arian i helpu ffoaduriaid, ry'n ni'n cyflawni'r hyn mae Duw wedi'i drefnu ar ein cyfer o'r dechrau. Nid cael ein hachub trwy ein gweithredoedd da yr ydym, ond cael ein hachub i weithredoedd da, bywyd mae Duw wedi ei drefnu o'r dechrau.

A dyma ni 'nôl gyda'r seld, y celficyn cain i ddal y llestri gwerthfawr. Croes Iesu yw'r seld, croes a drefnwyd cyn bod amser, croes a ffurfiwyd ym mywyd Iesu i ddal y llestri, croes ymarferol, croes o'r coed gorau, daioni a chyfiawnder Iesu, croes cwbl allweddol ar ein cyfer.

Croes Iesu yw'r seld nad yw'n heneiddio nac yn datgymalu, y seld nad yw'n gwegian o dan bwysau nac yn symud o'i lle. Croes Iesu yw'r seld sy'n dal llestri Duw i dragwyddoldeb. Does dim tyllau pryfed yn seld Duw, does dim *damp rot* yn seld Duw, does dim ôl chwilen amser arni o gwbl.

A dyma'r llestri, y jygiau a'r platiau, y soseri a'r cwpanau, pobl o bob llwyth a gwlad ac iaith, teuluoedd cyfan, gwŷr a gwragedd ac unigolion di-rif. Ac mae stori i bob llestr ar y seld: stori am ras Duw yn achub o'r tân, stori am faddeuant Duw yn cofleidio'r plentyn afradlon, stori am gariad Duw yn trawsffurfio'r gwan a'r llesg, stori am drugaredd Duw yn cynnal trwy dreialon bywyd.

Fe welwch sawl cwpan â chrac ar y seld yn y lolfa, ambell jwg â tholc, ambell addurn wedi colli ei glust, ond nid felly ar seld Duw.

Bydd pob cwpan, jwg, plât, soser ac addurn yn berffaith, y llestri i gyd wedi'u perffeithio gan ras. Fydd ddim un addurn ar goll, dim un lle gwag ar y seld; mae seld Duw yn berffaith ac yn llawn.

Beth sy'n cadw'r cwpanau yn eu lle ar y seld? Gair Duw, holl addewidion Duw i'w bobl yw'r bachau sgwâr sy'n dal y cwpanau ar y seld. Mae Duw wedi addo cynnal ei bobl yn unigol i dragwyddoldeb. Gallwn ddibynnu'n gyfan gwbl arno, "trwy ras yr ydych gadwedig".

A bydd yr holl gwpanau, soseri, platiau, jygiau ac addurniadau o bob math yn creu campwaith perffaith a deniadol fydd yn plesio Duw i dragwyddoldeb. Bydd e'n gweld y seld wedi ei haddurno â'r llestri gorau ac yn cael ei fodloni.

Nawr, wrth edrych ar y seld yn y tŷ, daw ambell don o hiraeth wrth feddwl am yr hwyl a gafwyd; daw ambell ddeigryn o dristwch wrth gofio am anwyliaid; daw ambell ochenaid am ddyddiau gwell a fu; daw dolur wrth gofio'r hen gartref nad yw mwyach. Ond nid fel 'na mae hi gyda seld Duw; dim ond llawenydd, bendith a gorfoledd a geir wrth edrych ar hon.

Mae'r seld yn y tŷ yn dawel iawn; does dim byd yn symud a does dim sŵn yn dod ohoni oni bai i ryw law ymestyn am gwpan neu i ryw blentyn daro pêl yn ei herbyn. Ond mae seld Duw yn canu – pob cwpan, pob soser, pob plât, pob jwg, pob addurn yn moli enw Duw. Côr y seld gyda harmonïau nefol yn canu am gariad Duw. Gallwch chi ddychmygu'r peth nawr: côr y seld yn moli Duw i dragwyddoldeb ... a chithau'n eistedd arni! Diolch Iddo!

"Yng Nghrist Iesu, fe'n cyfododd gydag ef a'n gosod i eistedd gydag ef yn y nefolion leoedd, er mwyn dangos, yn yr oesoedd sy'n dod, gyfoeth difesur ei ras trwy ei diriondeb i ni yng Nghrist Iesu" (Effesiaid 2:6-7). Mae Duw yn gosod ei drysorau ar y seld, mae Duw yn adeiladu ei eglwys. Diolch Iddo.

"Côr y Seld" – gan Ann Davies

Rhoddwyd gan y Tad un gogoneddus gôr
yn anrheg wiw trwy aberth ddrud Ei unig Fab.
Ar bren y groes bu'n hongian yn prynu rhain i gyd
a'u gosod yn drysorau yn dystion i'r holl fyd.
Mae grym Ei Ysbryd Glân yn dirgel ennyn ffydd
a mendio brychau lu mewn llestri bregus pridd.

Cwpan bychan syml ac nid yw'n hollol grwn
ond dwylo mam fu'n trafod a rhoddi gwerth ar hwn;
bydd pob brycheuyn wedi mynd pan ddaw ei rawd i ben
o silffoedd seld y teulu i ddwylo'r Saer fu'n trin y pren.

A dyma soser arall heb aur ar ôl na sglein
yn cofio dyddiau gwell cyn cael ei rhoi fan hyn.
Coron aur y Bywyd o law ei Arglwydd glân
fydd syndod mawr y nefoedd a rhoi i yntau gân.

A dyma addurn bychan – diaddurn yw yn awr
ond gwerthfawr fuodd unwaith fel rhodd gan gariad mawr,
a chariad heb ei fesur a'i gwna yn drysor drud
pan gaiff e' lais i ganu mewn newydd nefol fyd.

Mae'r jygiau oll yn hongian yn ddiogel yn eu lle
a stori hir yn clymu pob un wrth gôr y ne'.
Y Gair fu farw'n brydlon a'i air fel bachau dur
yn cadw'r enaid gwerthfawr nes daw i'r côr cyn hir.

Atgofion dirifedi o'r seld sy'n llifo'n llawn
a'i phren yn tystio'n dawel i bobol annwyl iawn.
Ond gwell na dagrau atgof fydd dagrau'r llawenhau
pan fydd y seld yn gyfan yng Nghôr yr Oen di-fai.

*Geraint Morse*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru